Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

# Achieving More Together / Cyflawni Mwy Gyda’n Gilydd

Achieving More Together / Cyflawni Mwy Gyda'n Gilydd

# Fframwaith Datblygu a Hyfforddi Ôl-Mabwysiadu y GMC

- Mae'r deunyddiau hyn wedi'u datblygu ar ran y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ar gyfer teuluoedd mabwysiadol
- Eu diben yw i ddarparu adnodd datblygu a dysgu ar gyfer mabwysiadwyr ar ôl lleoli
- Gellir defnyddio'r offer hyn gan grwpiau neu gan unigolion.
- Mae llawer o wybodaeth yn y nodiadau o dan bob sleid felly mae'n bwysig darllen y rhain hefyd gan eu bod yn darparu gymaint mwy o wybodaeth a rhai syniadau defnyddiol o ran darllen pellach.

# Beth yw Gwaith Taith Bywyd?

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

Mae Gwaith Taith Bywyd yn cynnwys ymgysylltu â phlant i'w galluogi i wneud synnwyr o wybodaeth am:

- Eu teulu biolegol
- Eu "Taith Bywyd" hyd yma
- Y rhesymau dros y penderfyniadau a wnaed, a arweiniodd at y cynllun i fabwysiadu
- Eu teulu mabwysiadol
- Eu hymdeimlad o hunaniaeth

# Trafodaeth

- Pam mae Gwaith Taith Bywyd yn bwysig? Beth yw'ch barn chi?
- Rhestrwch fanteision posibl o'ch plentyn/plant yn dysgu am wybodaeth eu"Taith Bywyd".
- Efallai bod gennych rai amheuon, os felly, rhestrwch y rhain hefyd.

# Pam mae Gwaith Taith Bywyd yn bwysig?

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

*“Mae angen i ni gydnabod a gwerthfawrogi rôl y Stori Bywyd fel rhan annatod o’r broses ymlyniad a bondio gydol oes ar gyfer y person mabwysiedig a’u teulu newydd.*

*Prif bwrpas y Stori Bywyd yw hyrwyddo sefydlogrwydd ac ymlyniad gyda’r teulu mabwysiadol ac i gefnogi datblygiad iach o ran hunaniaeth y person ifanc, fel eu bod yn gallu tyfu i fyny fel oedolyn sy’n seicolegol iach”*

(Adolygiad Llenyddol o Stori Bywyd Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol gan Joan Hunt, AFA Cymru)

# Pam

- Mae Gwaith Taith Bywyd y broses a all fod yn therapiwtig pan gaiff ei chyflawni yng nghyd-destun perthynas gadarn.

- Mae'n hanfodol ar gyfer iechyd meddwl
- Mae'n cefnogi datblygu ymlyniad a hunaniaeth
- Mae'n broses gydol oes (Brodzinsky)

- Os byddwn yn gwneud hyn yn iawn, gallwn leihau'r angen am gymorth mabwysiadu yn ddiweddarach (Astudiaeth Garfan Cymru, Cathernie Shelton et al, 2018)



Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

# Credoau negyddol anymwybodol

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

Mae'r awdur cyhoeddedig, Joy Rees, yn awgrymu bod gan blant mabwysiedig yn aml gredoau negyddol nad ydynt yn gwbl ymwybodol ohonynt, ond sy'n effeithio ar sut maen nhw'n gweld y byd.

**Pe bai fy rhieni biolegol wedi derbyn mwy o gefnogaeth gallwn i fod wedi aros gyda nhw**

Roedd fy rhieni biolegol ar gyffuriau/yn dioddef o salwch meddwl felly bydd yr un peth yn digwydd i mi?

Mae'n rhaid fy mod i yn ddrwg iawn gan nad wyf yn cael byw gyda fy mrodyr a chwiorydd.

# Negeseuon Da

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

- Felly mae'n bwysig rhoi'r negeseuon canlynol i blant
  - Nid eu bai nhw yw digwyddiadau'r gorffennol
  - Maen pobl yn eu caru ac maen nhw'n gallu cael eu caru
  - Roedden nhw'n haeddu gofal a magwraeth gwell
  - Mae rhywun eu heisiau ac maen nhw'n perthyn
  - Mae oedolion yn deall, a gellir ymddiried ynddynt

# Beth all Mabwysiadwyr ei ddisgwyl?

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

"Bydd gan yr holl blant yng Nghymru, nad ydynt yn gallu derbyn gofal gan eu teuluoedd biolegol, ddealltwriaeth o hanes eu teulu a'u taith unigryw."
(Canllaw Arfer Da Bywyd Gwaith Taith Bywyd Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru)

- Dylid darparu deunyddiau Taith Bywyd o ansawdd da i bob plentyn sy'n cael ei fabwysiadu i gefnogi hyn.

# Pecyn Cymorth Gwaith Taith Bywyd NAS

- Mae'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol wedi darparu Canllaw Arfer Da Gwaith Taith Bywyd a phecynnau cymorth i gefnogi
  - Teuluoedd mabwysiadol,
  - Gofalwyr Maeth a
  - Gweithwyr proffesiynol ym maes gwaith cymdeithasol.
- Bydd pecynnau cymorth pellach ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion a fabwysiadwyd, aelodau o'r teulu biolegol a gweithwyr proffesiynol eraill ar gael yn fuan.

# Prif rôl rhieni mabwysiadol

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

- Mae rhieni mabwysiadol wrth wraidd y dull hwn.
- Nhw yw ceidwaid gwybodaeth y plentyn ar gyfer tasg gydol oes gwaith taith bywyd.

- Nhw yw’r person y gall y Plentyn “droi atynt”, fel rhan o gael sylfaen diogel, nhw yw’r “person sy’n cefnogi’r plentyn i archwilio emosiynau a meddyliau mewn lleoliad diogel, cefnogol ac empathig”

Schofield and Beek (2006).

# Egwyddorion Allweddol GTB

- Mae'n rhaid i Waith Taith Bywyd ddechrau cyn gynted ag y bydd y plentyn yn dechrau 'Derbyn Gofal' (Yn dod i ofal yr Awdurdod Lleol)
- Rhaid i weithwyr proffesiynol weithio gyda theuluoedd biolegol, gofalwyr maeth a gweithwyr proffesiynol eraill i gyflawni hyn
- Dylai sgyrsiau Teithiau Bywyd fod yn rhan o fywyd bob dydd y plentyn. Mae'n well rhoi gwybodaeth fesul tipyn, fel sy'n briodol i oedran ac yn unol ag anghenion y plentyn bryd hynny.
- Mae deunyddiau Gwaith Taith Bywyd yn cynnig offer i gynorthwyo gyda hyn, ond mae angen i ni gefnogi a hyfforddi mabwysiadwyr i barhau â'r gwaith pwysig hwn.

# Egwyddorion Allweddol GTB

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

- Bydd pob plentyn yn derbyn deunyddiau Gwaith Taith Bywyd (gan gynnwys llyfr a llythyr bywyd diweddarach) sy'n darparu 'naratif cydlynol', sy'n golygu y dylai stori'r plentyn fod yn glir.
- Dylai deunyddiau Gwaith Taith Bywyd roi llawer o'r atebion i blant, i lawer o'r cwestiynau fydd ganddynt yn y dyfodol am eu profiadau bywyd cynnar.
- Dylai cydweithredu ddigwydd rhwng y darpar fabwysiadwr/wyr a'r person allweddol sy'n ymwneud â chynhyrchu Deunyddiau Taith Bywyd
- Sicrheir ansawdd Deunyddiau Drafft Taith Bywyd, gan ystyried adborth Darpar fabwysiadwyr

# Beth i’w Ddisgwyl

“Mae GTB yn rhoi disgrifiad o fywyd plentyn mewn geiriau, lluniau, pethau cofiadwy, hanesion a dogfennau. Mae’n rhoi cyfle a strwythur i’r plentyn archwilio ei emosiynau a siarad am faterion poenus. Mae’n rhoi gwybodaeth ffeithiol bwysig i blant. Mae’n darparu naratif/ esboniadau ar gyfer y Plentyn. Mae’n cadw atgofion.”

# Rôl Rhieni Mabwysiadol yng Ngwaith Taith Bywyd

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

Mae plant sydd wedi cael eu gwahanu oddi wrth eu teuluoedd biolegol angen gwybodaeth onest ac esboniad am newidiadau i'w bywyd **ar unwaith** pan fo'r gwahanu'n digwydd, a phwy well i esbonio hyn na'r person sy'n eu magu

**(Livingston Smith, 2014)**

# Defnyddio eich geiriau eich hun

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

- Mae’n bwysig eich bod yn teimlo’n hyderus yn eu deunyddiau Taith Bywyd i Blant.
- Efallai na fydd y geiriad yn iawn i chi, neu eich bod yn ansicr ynghylch amseriad rhannu gwybodaeth anodd.
- Mae’n well dweud os yw hyn yn wir, gan y gallai eich atal rhag rhannu gwybodaeth hanfodol gyda’ch plentyn, nawr neu yn y dyfodol.

# Trafodaeth – Deunyddiau taith bywyd

Edrychwch ar y sampl o lyfrau Taith Bywyd a Llythyrau Bywyd Diweddarach a ddarperir yn y pecyn cymorth.

- Beth ydych chi'n ei hoffi?
- Beth nad ydych chi'n ei hoffi?

# Siarad â Phlant

- Pa adnoddau sydd ar gael i helpu Mabwysiadwyr i siarad â'u plant?

- Mae'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol wedi darparu pecyn cymorth i gynorthwyo teuluoedd mewn sgyrsiau taith bywyd a rhannu eu deunyddiau Taith Bywyd i Blant.

# Adnoddau ar gyfer Mabwysiadwyr

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

- Mae adnoddau ar gael i helpu mabwysiadwyr i siarad â'u plant
- Mae'r pecyn cymorth yn cwmpasu pynciau fel rhoi gwybodaeth anodd a'r prif argymhellion wrth siarad â phlant am fabwysiadu.
- Mae'r pecyn cymorth hefyd yn darparu gweithgareddau ymarferol y gallwch eu defnyddio a rhestr o lyfrau ac adnoddau defnyddiol a allai fod o gymorth i chi.

# Straeon i blant

- Mae nifer o straeon i blant ar gael i helpu plant i baratoi ar gyfer cael eu mabwysiadu ac i archwilio teimladau am fabwysiadu, pan fydd plant yn eu teuluoedd mabwysiadol.
- Mae cwpl o restrau darllen awgrymedig yn y pecyn cymorth, wrth gwrs mae llyfrau newydd yn cael eu cyhoeddi drwy'r amser hefyd!
- Mae “Metaphorical stories” gan Katie Wrench ar gael yn rhad ac am ddim yn y pecyn cymorth ac mae'n werth ei ddarllen.

# Sgyrsiau gydol oes

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

- Wrth i blant symud trwy gyfnodau datblygiadol mae ystyr a goblygiadau cael eu mabwysiadu yn newid iddynt.
- Efallai bod ganddynt gwestiynau newydd, neu fod angen iddynt ail- ddelio â theimladau cymhleth y maent wedi dod i delerau â nhw o'r blaen.
- Mae hyn i gyd yn ddisgwyliedig – meddyliwch am y cwestiynau y gwnaethoch chi eu gofyn am ddigwyddiadau pan oeddech chi'n 3 mlwydd oed, ac eto yn 13 mlwydd oed.

# Manteisio ar Gymorth

- Nid yw bob amser yn hawdd siarad am wybodaeth Taith Bywyd.

Mae Canllaw Arfer Da y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn nodi:

> *“Dylai cymorth fod ar gael i’r Darpar Fabwysiadwyr a’r Plenyn i barhau i adeiladu sylfaen gadarn. Bydd hyn yn cynnwys cymorth i barhau â GTB gyda’r Plentyn.”*

- Mae'r cwrs hwn yn rhan o gyfres a ddatblygwyd gan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol i gefnogi mabwysiadwyr ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo.
- Gellir dod o hyd i'r rhain ar wefan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol.
- Siaradwch gyda'ch tîm cefnogi mabwysiadu am ragor o wybodaeth